Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Dyddiad/ Date 12fed Mehefin 2020
Rhif Ffôn/ Direct Line 01639 763298
Ebost/ Email a.evans@npt.gov.uk
Cyswllt/ Contact
Eich cyf / Your ref
Ein cyf/ Our ref AE/jg

Annwyl Riant / Gofalydd,

Yr wythnos diwethaf cyhoeddodd y Gweinidog Addysg yng Nghymru y bydd ysgolion yn ailagor yn raddol ar gyfer trefniadau dod i'r ysgol a dal lan.

Bydd hyn yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc fynychu ysgolion ar gyfer slotiau a ddyrannwyd er mwyn iddynt gael eu cefnogi yn eu lles a'u dysgu. Bydd y trefniadau dod i'r ysgol a dal lan yn amrywio o ysgol i ysgol, dylent ganolbwyntio ar ymateb i anghenion iechyd a lles emosiynol disgyblion ac ar sicrhau bod parhad rhwng cefnogaeth yn yr ysgol a dysgu gartref.

Ar y pwynt hwn, mae angen i mi ddiolch i chi, fel rhieni, am y gefnogaeth addysgol rydych chi wedi bod yn ei darparu dros y deuddeg wythnos ddiwethaf a'r ffordd rydych chi wedi meithrin partneriaeth egnïol gydag ysgolion. Mae'n annhebygol y bydd ysgolion yn dychwelyd i'r ffordd y cawsant eu gweithredu cyn y cloi am gryn amser; mae'n anodd gosod amserlen ar hyn. Mae angen i ni edrych ar y trefniadau dod i'r ysgol a dal lan fel y camau cyntaf tuag at ysbrydoli a chyffroi disgyblion ynglŷn â dysgu unwaith eto.

2.

Mae staff ein hysgolion wedi bod yn wych yn y ffordd maen nhw wedi dal ati i ddarparu cyfleoedd dysgu. Mae'n amlwg o brofiad diweddar nad yw dysgu'n gwybod unrhyw ffiniau ac na fydd yn cael ei gloi i lawr. Fodd bynnag, bydd y cyfyngiadau a roddwyd ar ysgolion yn cael eu codi'n ofalus ac yn bwyllog . Bydd pob ysgol unigol yn gwneud penderfyniadau ar sut y byddant yn agor a pha grwpiau oedran fydd yn cael eu blaenoriaethu. Disgwyliwn i'r broses hon fod yn ddatblygiadol ac wrth i ysgolion a'u cymunedau fagu mwy o hyder a rhythm byddant yn symud ymlaen tuag at dderbyn hyd at draean y disgyblion ar unrhyw un adeg, er y gall gymryd amser i gyrraedd y lefel hon o weithredu.

Rydym yn ymwybodol y bydd pryder ac ansicrwydd. Bydd ysgolion yn cysylltu â rhieni dros yr wythnosau nesaf i'w hysbysu o'u cynlluniau ailagor ac i roi sicrwydd lle mae angen.

Mae staff yn paratoi ysgolion i sicrhau bod eu gweithrediad yn cydymffurfio â chanllawiau lleol a chenedlaethol a sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl i ddisgyblion a staff.

Disgwyliwn i ysgolion gysylltu â disgyblion a darparu llythyrau iddynt yn eu croesawu i'w hamgylcheddau newydd, gan eu paratoi i wneud y gorau o'u hamser yn yr ysgol ac egluro sut y bydd eu profiadau dysgu yn cael eu mireinio.

Byddwn yn gofyn i ysgolion sicrhau bod disgyblion a rhieni yn deall cyn gynted â phosibl sut mae amgylcheddau, gweithdrefnau a gweithrediad wedi'u haddasu er mwyn hwyluso, mor ddiogel â phosibl, dychweliad disgyblion i ysgolion.Bydd y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a byddant yn cael eu newid lle bo angen, gan roi diogelwch disgyblion a staff wrth wraidd y broses.

Bydd darpariaeth gofal plant o fewn hýb yn dod i ben ar 19 Mehefin ac yn trosglwyddo i ysgolion, lle darperir darpariaeth gofal ar gyfer plant gweithwyr critigol a dysgwyr bregus tan ddiwedd y tymor.

Oherwydd y rheoliadau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar bellhau cymdeithasol, bydd ein darpariaeth cludiant cartref i ysgol yn gyfyngedig iawn. Anogir pob rhiant i gludo eu plant eu hunain i'r ysgol. Byddwn yn blaenoriaethu trefniadau cludiant ar gyfer disgyblion sydd â hawl i gludiant yn seiliedig ar eu hasesiad AAA a disgyblion sy'n mynychu darpariaeth blwyddyn 7,8,9,10 a 12.

Bydd eich ysgol yn eich hysbysu o'r trefniadau hyn yn fwy manwl.

Byddwn yn cefnogi ysgolion i fynd at eu trefniadau dod i'r ysgol a dal lan gyda gofal a hyder, gyda dycnwch a manylder a chyda sicrwydd ac optimistiaeth.

Rwy'n eich gwahodd i fod yn rhan o'r broses hon er mwyn i ni allu cymryd y camau hyn ymlaen gyda'n gilydd, gan gynnal ein plant a'u cefnogi i barhau i ddysgu ac i lwyddo.

Yr eiddoch yn gywir,

Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes